**Adran 75(3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**

**Canllawiau ar benderfynu gollyngiadau rhag arddangos plât trwydded llogi preifat**

1. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gofyn bod cyngor dosbarth yn gorfod darparu plât cerbyd llogi preifat gyda phlât neu ddisg adnabod ac na ddylai'r perchennog ddefnyddio, na chaniatáu defnyddio, y cerbyd hwnnw heb arddangos y plât yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dewis i'r cyngor dosbarth ryddhau perchenogion rhag arddangos y plât trwydded ar eu cerbydau llogi preifat trwyddedig. Bydd pob cais am ryddhad yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Yr ystyriaeth or-redol fydd diogelwch y cyhoedd. Mae dynodi cerbyd trwyddedig yn glir yn cael ei ystyried yn agwedd diogelwch o'r fath, yn enwedig wrth ymweld â mannau fel meysydd awyr, porthladdoedd a chanol trefi mawr.

2. Ni fydd gollyngiadau'n cael eu rhoi fel mater o drefn. Bydd gofyn i'r perchennog gyflwyno achos clir dros y rhyddhad. Fel arfer, wrth benderfynu cais, statws y teithiwr a natur weithredol y gwaith fydd yn pennu a ddylid caniatáu rhyddhad neu beidio. Bydd safon uchel y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio'n cefnogi cais, ond nid yr unig elfen benderfynu. Fel arfer, bydd gollyngiadau'n cael eu caniatáu yn unig pan fo'r gwaith sy'n cael ei gynnal yn digwydd yn bennaf neu'n gyfan gwbl oddi allan o'r dosbarth. Fel arfer, ni fydd rhyddhad yn cael ei ganiatáu pan fo'r teithiau'n gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn y dosbarth oni bai fod rhesymau eithriadol dros wneud hynny.

3. Os bydd perchennog cerbyd llogi preifat, neu yrrwr ei gerbyd, wedi cael eu rhybuddio neu gael yn euog erioed gan unrhyw awdurdod o geisio hurio allan yn anghyfreithlon, ni fyddant yn cael rhyddhad oni bai y gallant ddangos amgylchiadau eithriadol.

4. Y math o waith fyddai'n cael ei ystyried ar gyfer rhoi rhyddhad fyddai'r hyn y gellid ei alw'n 'fath gweithredol'. Gallai gwaith o'r fath gynnwys –

    contractau gyda phersonél uwch cwmnïau mawr i gludo rheolwyr-gyfarwyddwyr neu eu cleientiaid;
    contractau gyda llywodraeth genedlaethol neu leol, neu asiantaethau tebyg, i gludo personél uwch a gwesteion ar fusnes swyddogol;
    cludo cymeriadau adnabyddus fel sêr chwaraeon neu fyd 'pop';
    cludo'r briodferch a/neu'r priodfab i briodas (ond nid gwesteion)

    Mae'r rhestr hon yn arwyddol, ond nid yw'n cynnwys popeth. Mae disgwyl hefyd y bydd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i'r teithiwr o safon a dosbarth sy'n mynd ymhell uwchlaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar daith llogi preifat a archebwyd fel arfer trwy weithredwr. Byddai sefyllfaoedd eraill yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod eu hunain.

5. Pan fo rhyddhad yn cael ei ganiatáu, rhaid peidio ag arddangosfa unrhyw arwydd ar y cerbyd ei fod yn gerbyd llogi preifat heblaw bathodyn ffenestr y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys glynion ffenestr y Cyngor, hysbysebu, enwau, rhifau ffôn a chyfeiriadau gwefannau cwmnïau nac unrhyw fath o hysbyseb neu arddangosfa sy'n dangos bod y cerbyd yn gerbyd llogi preifat neu ar gael i'w logi yn y dyfodol.

6. Ymhlith y math o waith na fydd yn cael ei ystyried ar gyfer rhyddhad mae:-

Gwaith 'contract ysgol' y Cyngor;
Teithiau i feysydd awyr, porthladdoedd neu orsafoedd trên, oni bai fod hynny'n rhan o daith â rhyddhad arni; (y farn yw bod arddangos platiau trwydded a glynion drws y Cyngor yn briodol yn nodwedd diogelwch wrth gyrraedd mannau o'r fath, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol o ymosodiadau terfysgwyr)
Teithiau i'r theatr neu achlysuron chwaraeon oni bai y pennwyd hynny ar y rhyddhad;
Nosau 'merched' a 'bechgyn'.

Dan amgylchiadau eithriadol, lle mae modd dangos bod taith arbennig fel hyn yn haeddu rhyddhad, bydd cais yn cael ei ystyried yn briodol.

7. Yn ystod cyfnod o ryddhad rhaid peidio â defnyddio na dangos radios dwyffordd yn y cerbyd.

**<u>Er mwyn i gerbyd gymhwyso fel cerbyd a ryddhawyd, bydd yr amodau ychwanegol canlynol yn berthnasol hefyd:</u>**

1. Penderfyniad y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd fydd caniatáu neu wrthod rhyddhad rhag arddangos y platiau trwydded llogi preifat a glynion ffenestr presennol.

2. I gymhwyso fel eithriedig, byddai'r cerbyd yn foethus ac o fanyleb uwch na cherbydau safonol. Byddai hefyd yn gymharol newydd, yn ddelfrydol dan 3 oed (er na fydd oed yn rhwystro rhag trwyddedu cerbyd sydd mewn cyflwr eithriadol o dda) ac o faint, golwg a dyluniad addas.

3. Rhaid gwneud unrhyw archeb am daith mewn cerbyd eithriedig trwy gontract ysgrifenedig. Rhaid bod contractau o'r fath yn bodoli o leiaf 24 awr cyn dechrau'r daith. Rhaid i gontractau ysgrifenedig fod ar gael i'w harchwilio gan Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl ar unrhyw adeg resymol a'u cadw am gyfnod o 12 mis o leiaf.

4. Bydd cerbydau eithriedig sy'n gwneud gwaith llogi preifat heb gontract ysgrifenedig yn bodoli ar sail amod 3 yn colli eu statws eithriedig. Yna byddant yn gorfod arddangos platiau Llogi Preifat safonol Cyngor Wrecsam ar flaen a chefn y cerbyd a glynion ffenestr.

5. Rhaid i gerbydau eithriedig beidio ag arddangos unrhyw farciau allanol, e.e. manylion y gweithredwr neu hysbysebion.

6. Rhaid i gerbydau eithriedig beidio â chychwyn taith a archebwyd o gyfleuster archebu Llogi Preifat nac yn y cyffiniau, heblaw mewn pan fo contract blaenorol eisoes yn bod, fel y disgrifiwyd yn amod 3.

7. Bydd gofyn i gerbydau sy'n gymwys i fod â statws eithriedig arddangos un neu fwy o Arwyddion Cerbyd Eithriedig Cyngor Wrecsam yn dynodi bod y cerbyd yn gerbyd llogi preifat trwyddedig.

8. Bydd gofyn i gerbydau sy'n gymwys i gael statws eithriedig gludo copi o'u Trwydded Cerbyd Llogi Preifat i'w archwilio (ar gais) gan unrhyw un â diddordeb.

9. Cyn y daith, rhaid cynghori'r llogwyr na fydd y cerbyd fydd yn dod i'w casglu'n arddangos platiau Trwydded Cerbyd Llogi Preifat safonol na glynion ffenestr.

10. Dim ond Gyrrwr Llogi Preifat trwyddedig ac a drwyddedwyd gan yr un awdurdod ag a eithriodd y cerbyd sy’n cael gyrru cerbyd eithriedig.

11. Bob amser pan fo’r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar waith dan y rhyddhad dangos y plât llogi preifat, rhaid i’r llythyr awdurdodi fod yn y cerbyd a’i gyflwyno i’w archwilio os bydd cais i wneud hynny. Rhaid i’r gyrrwr hefyd fod â’i fathodyn gyrrwr llogi preifat a’i gyflwyno os bydd cais i wneud hynny. Pan nad yw’n gwneud gwaith dan y rhyddhad, rhaid i’r cerbyd arddangos y plât trwyddedu yn unol ag amodau trwyddedu.

12. Gallai torri’r amodau cerbyd eithriedig mewn unrhyw fodd beri bod y cerbyd yn colli ei statws eithriedig; o hynny ymlaen, gan dybio y bydd yn dal i gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Llogi Preifat, bydd gofyn i’r cerbyd arddangos y platiau trwydded llogi preifat a glynion ffenestr safonol cyfredol.

13. Rhaid i geiswyr statws cerbyd eithriedig lofnodi ymrwymiad eu bod yn deall yn llwyr ac yn derbyn yr amodau hyn.

14. Mae modd apelio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol o ran math o gerbyd a chontractau defnyddio os bydd y Prif Swyddog Tai a Diogelu’r Cyhoedd yn gwrthod neu’n tybio’n amhriodol.